**Strategaeth Hybu'r Gymraeg**

**Adroddiad Cynnydd ar gyfer y cyfnod Hydref 2018-Medi 2019**

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi'r hyn y bwriadom ei gyflawni dros oes y strategaeth, 2018-2023. O ganlyniad, mae rhai camau gweithredu'n rhychwantu'r cyfnod cyfan ac mae gan eraill ddyddiadau targed o fewn y cyfnod adrodd hwn.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnydd yn Adran 1 - ymyriadau mewnol a thrydydd parti dan reolaeth CBS Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas â'r cynllun gweithredu, ac yn benodol:

- cynnydd yn erbyn y camau gweithredu â 2018 a 2019 fel dyddiadau targed
- cynnydd yn erbyn y camau gweithredu â 2023 fel dyddiad targed

Adran 2 - Ymyriadau gan sefydliadau partner (nad ydynt dan reolaeth CBS Castell-nedd Port Talbot): maent yn cynnwys camau gweithredu a chanddynt 2023 fel dyddiad targed yn y lle cyntaf. Ni chafwyd cynnydd ar yr adran hon eto gan y Fforwm Iaith Strategol sy'n goruchwylio'r gwaith; gall hyn fod oherwydd amrywiaeth o resymau gan gynnwys: dyddiad targed y camau gweithredu yw 2023; ychydig o gynnydd a wnaed neu ddim o gwbl, sefydliadau â chylchoedd adrodd gwahanol etc.

Oherwydd nifer o amgylchiadau dros y cyfnod, mae cyfradd y cynnydd wedi bod yn gymysg. Er y collwyd rhai targedau penodol, caiff camau gweithredu eu gwireddu yn y flwyddyn nesaf, gan sicrhau bod y cynllun yn cyd-fynd â'r amserlenni gwreiddiol unwaith eto. Mewn rhai achosion, cyflawnwyd rhai camau gweithredu'n rhannol ac eto, yn nod yw eu cyflawni'r llawn o fewn y flwyddyn nesaf lle y bo'n briodol.

**ADRAN 1 - Ymyriadau mewnol a 3ydd parti dan reolaeth CBS Castell-nedd Port Talbot**

**<u>Cynnydd yn erbyn y camau gweithredu â 2018 a 2019 fel dyddiadau targed</u>**

**Blaenoriaeth Strategol 1 Plant a Phobl Ifanc**

**1.2 Addysg – y sector cynradd**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Lansio ymgyrch farchnata ledled y fwrdeistref sirol i hybu manteision addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd.
- Sicrhau bod rhieni'n wybodus ynghylch addysg Gymraeg ac yn cael eu cefnogi os ydynt am i'w plentyn barhau ag addysg Gymraeg.
- Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg neu gynnwys diwylliant a threftadaeth Cymru ar gyfer plant oed cynradd

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Dosbarthwyd llyfrynnau 'Being Bilingual/Bod yn Ddwyieithog' i bob ysgol Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn hysbysebu'r llyfryn ar eu gwefan.

  Sefydlwyd is-grŵp o fforwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) er mwyn adolygu a gwella gwe-dudalennau Cymraeg Castell-nedd Port Talbot. Ystyrir cynnwys dogfennau perthnasol ar hyn o bryd er mwyn hybu manteision addysg Gymraeg.

Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot (MICNPT) hefyd wedi llunio llyfryn yn benodol ar gyfer CNPT sy'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am y Gymraeg. Caiff y llyfryn hwn, ynghyd â'r llyfryn 'Being Bilingual' eu cynnwys ar y gwe-dudalennau addysg Gymraeg newydd.

- Mae clwb ar ôl ysgol Ysgol Gynradd Melin, y mae rhieni a disgyblion yn mynd iddo, yn rhoi cefnogaeth i'r rheini â sgiliau iaith Gymraeg cyfyngedig. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu ymwneud â'r iaith yn well ac mae hefyd yn darparu cefnogaeth a hyder i rieni a fyddai'n ystyried y posibilrwydd o roi addysg Gymraeg i'w plentyn.

  Mae MICNPT yn cynnal clwb darllen yn Nhŷ'r Gwrhyd ym Mhontardawe sy'n annog ac yn cefnogi plant i ddarllen llyfrau Cymraeg. Nod y clwb yw helpu plant o bob oed wella'u darllen yn Gymraeg. Gall plant fynd â'u llyfr eu hunain neu ddewis un yn y clwb. Yn ogystal, mae'r clwb hefyd yn cefnogi plant â'u gwaith cartref Cymraeg.

  Mae Fforwm WESP ar hyn o bryd yn ystyried darparu cefnogaeth i rieni/disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel rhan o agenda ehangach o drosglwyddo disgyblion cynradd i addysg uwchradd Gymraeg.

- Mae'r gwasanaeth Ieuenctid wedi helpu i gyflwyno Diwrnodau Pontio i ddisgyblion oed cynradd a oedd yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Ystalyfera.

### 1.3 Addysg - y sector uwchradd

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol i gryfhau'r cyswllt rhwng iaith addysg ac iaith y gymuned.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Mae MICNPT, mewn partneriaeth ac yn annibynnol, yn cynnal clybiau/ gweithgareddau amrywiol yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys: Clwb Sgiliau (gemau, crefftau, cerddoriaeth a mwy!) a gynhelir yn ystod gwyliau'r ysgol mewn amrywiaeth o leoliadau; Clwb Ieuenctid Castell-nedd, sy'n gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru, i ddarparu clwb ieuenctid i blant 11 oed a Stafell Stwnsh, yn ystod amserau cinio yn Ysgol Gyfun Ystalyfera, lle mae disgyblion yn mwynhau gweithgareddau gwahanol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Blaenoriaeth Strategol 2 Teuluoedd**

**2.1 Trosglwyddo Iaith yn y Cartref**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trosglwyddo iaith ymhlith oedolion ifanc sy'n siarad Cymraeg.
- Trefnu ymgyrch farchnata i dargedu oedolion ifanc sy'n siarad Cymraeg.
- Darparu cefnogaeth i rieni â phlant mewn ysgolion Cymraeg i liniaru pryderon am helpu gyda gwaith cartref.
- Cynyddu gweithgareddau i'r teulu cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Yn anffodus, ni chafwyd cynnydd o ran cynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth o iaith cyffredinol mewn cyrsiau addysg bersonol neu gymdeithasol mewn ysgolion Cymraeg na Saesneg yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, trefnir trafodaethau â swyddogion perthnasol yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020 i archwilio'r ffordd orau o ddatblygu hyn.

- Er na wireddwyd yr ymgyrch arfaethedig i hybu ac annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn ystod 2018-2019, y gobaith yw y bydd Fforwm WESP yn cynnwys y darn hwn o waith  yn ei gylch gwaith yn ystod 2019-2020; cynigiwyd is-grwpiau ar gyfer y fforwm i fynd i'r afael â materion hybu mynediad at addysg/wefan Gymraeg; Datblygu'r gweithle/y Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, e.e. gweithio ar y cyd a darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar.
- Mae Fforwm WESP wedi cydnabod y broblem sy'n bodoli sef y posibilrwydd nad yw'r di-Gymraeg yn gwireddu eu potensial llawn mewn ysgolion Cymraeg, a bydd yn ystyried camau gweithredu a fyddant o bosib yn cynnwys clybiau gwaith cartref, i fynd i'r afael â hyn maes o law.
- Mae MICNPT yn ystyried ehangu ei llyfryn 'Ymwybyddiaeth o Iaith' fel ei fod yn fwy perthnasol i rieni di-Gymraeg disgyblion sydd eisoes mewn ysgol Gymraeg, ond sydd efallai'n cael anhawster ag agweddau amrywiol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg e.e. cefnogi plant gyda'u gwaith cartref.

**Blaenoriaeth Strategol 3 Cymunedau**

**3.1 Y Gymraeg yn y Gymuned**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Sicrhau bod canolfannau hamdden yn mynd ati'n rhagweithiol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg o ran darpariaeth ac o ran ei gwneud yn weladwy.
- Dathlu diwylliant a threftadaeth y fwrdeistref sirol

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Er bod gan Hamdden Celtic Gynllun Iaith Gymraeg, mae'r dosbarthiadau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig er bod gwersi nofio bellach ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir bod diffyg cyswllt

rheolaidd â Hamdden Celtic o ran y camau gweithredu yn y strategaeth wedi golygu mai prin oedd y cynnydd a wnaed yn ystod 2018-2019, a gwneir iawn am hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â swyddogion perthnasol i ddechrau archwilio creu gwedudalen fel adnodd er mwyn dathlu diwylliant a threftadaeth y fwrdeistref sirol. Ein bwriad yw gweithio gyda MICNPT, Fforwm WESP a sefydliadau a grwpiau lleol yn ystod 2019-2020 i ddatblygu'r wedudalen cyn diwedd y flwyddyn.

### 3.2 Cymraeg yn y Gweithle

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Sicrhau bod nifer digonol o staff ar gyfer faint o alw sydd am y Gymraeg er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Mapio'r lefelau sgiliau iaith Gymraeg presennol.
- Darparu cyfleoedd i staff wella'u sgiliau iaith.
- Galluogi staff ac aelodau Etholedig i fod yn ymwybodol o hanes a diwylliant y Gymraeg gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg.
- Darparu cefnogaeth ar y fewnrwyd i siaradwyr Cymraeg a'r rheini sy'n dysgu'r iaith.
- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Datblygu hyder wrth ddefnydd Cymraeg ysgrifenedig.
- Annog staff ac Aelodau Etholedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol ac mewn cyflwyniadau.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Prin iawn fu'r cynnydd wrth ddatblygu Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae hyn o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys dyddiad targed gwreiddiol uchelgeisiol, cyfnod hirfaith o absenoldeb staff a chynnydd sylweddol yn llwyth gwaith swyddogion perthnasol. Yn ogystal, caiff system AD newydd ei chyflwyno dros y 12 i 18 mis nesaf a fydd yn cael effaith sylweddol ar roi prosesau ar waith sy'n gysylltiedig â strategaeth sgiliau. Felly, ystyrir ei fod yn fwy priodol datblygu'r strategaeth yn unol â'r system i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ac felly'n addas at y diben.

- Er mwyn helpu i gyfeirio datblygiad y Strategaeth Sgiliau Iaith, rhagwelwyd y byddai archwiliad sgiliau iaith yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodwyd uchod, nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Gan fod cyswllt anorfod rhwng yr archwiliad, y strategaeth a'r system AD, ystyrir ei fod yn fwy priodol datblygu'r tair ffrwd waith gyda'i gilydd.

- Ar hyn o bryd, cofrestrir 4,000 o weithwyr cyflogedig ar y porth gweithwyr (offeryn hunanwasanaeth sy'n galluogi gweithwyr i ddiweddaru ystod o ddata personol gan gynnwys eu sgiliau iaith Gymraeg). Mae 875 wedi nodi bod ganddynt rywfaint o sgiliau iaith Gymraeg ac 828 yn dweud eu bod yn ddysgwyr. Mae rhai cafeatau mewn perthynas â'r ffigurau olaf: mae nodi lefel sgil yn wrthrychol - gellir goramcangyfrif neu danamcangyfrif sgil ac er bod y porth yn galluogi gweithwyr i ddiweddaru data personol yn rhwydd, nid ydynt bob amser yn gwneud hyn nac yn ystyried ei fod yn angenrheidiol. Ni ellir dibynnu felly ar y rhifau a ddatganwyd.

- Rydym wedi sicrhau bod yr holl ohebiaeth berthnasol i weithwyr yn gwahodd y gweithiwr i hysbysu AD os ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin ag AD yn bersonol, yn ogystal â nodi a yw'n dymuno cynnal prosesau/gweithdrefnau perthnasol yn y Gymraeg. Mae holl ffurflenni a pholisïau AD, fel y'u nodir yn Safonau'r Gymraeg, wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ac maent ar gael ar y fewnrwyd.

- Mae gwybodaeth am argaeledd cyfleoedd hyfforddiant yn Gymraeg ar gael ar ein tudalen hyfforddiant iaith Gymraegar y fewnrwyd. Mae ‘In the Loop’ hefyd wedi cynnwys erthyglau ar y pwnc. Mae cyfleoedd hyfforddiant yn cynnwys ‘Welsh for Beginners’, ‘Work Welsh’ ac ‘Improve your written Welsh’. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael i weithwyr cyflogedig ac aelodau etholedig.

Nid yw gwybodaeth am gyfleoedd yn y gymuned i ddysgu neu well sgiliau Cymraeg wedi'u hysbysebu mor eang ac mae hyn yn rhywbeth y gobeithiwn fynd i'r afael ag ef yn yr ychydig fisoedd nesaf.

- Cyflwynwyd rhaglen lwyddiannus o hyfforddiant iaith Gymraeg i staff sydd am ddysgu a gwella'u sgiliau iaith Gymraeg yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o hyfforddiant gan gynnwys cwrs wyneb yn wyneb arbenigol 10 wythnos o hyd a 10 awr o e-ddysgu ar-lein ar y Gymraeg Gwaith ar gyfer staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gall staff barhau â'u dysgu ar wersi Cymraeg i Ddechreuwyr a achredir gan CBAC (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru).
- Mae'r tîm hyfforddi'n gweithio gyda rheolwyr a goruchwylwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a phwysigrwydd darparu'r ‘Cynnig Gweithredol' yn unol â gofynion statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru ac i annog a chefnogi staff i ddysgu'r iaith a chynorthwyo wrth ddarparu gofal a chefnogaeth dda.
- Gall staff gael mynediad at hyfforddiant e-ddysgu newydd ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mae'r cwrs yn cynnig hanes y Gymraeg a'r cyd-destun lleol presennol.
- Mae nifer o staff wedi holi ynghylch hyfforddiant ac maent wedi'u cofrestru ar lefelau amrywiol raglenni dysgu ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg ar hyn o bryd; mae dau aelod o staff wedi cwblhau'r rhaglen ers mis Ebrill 2019 ac mae 2 aelod arall o staff wedi cwblhau cwrs 10 wythnos sy'n gyflwyniad i Ddysgu Cymraeg.
- Mae cyrsiau Cymraeg Gwaith ar gael i staff ar draws y cyngor. Gellir cyrchu'r cyrsiau drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ar-lein ac maent ar gael ar 3 lefel wahanol:

  - Cymraeg Gwaith Ar-lein (58 o staff wedi'u cofrestru) - 10 awr ar gyfer staff sy'n dymuno dechrau dysgu Cymraeg sydd ag ychydig o wybodaeth amdani neu ddim o gwbl.
  - Croeso Nôl Cymraeg Gwaith (6 o staff wedi'u cofrestru) - Cwrs sy'n dilyn yr uchod, 10 awr bellach gyda mwy o fanylder ac ehangir ar y cynnwys.
  - Cymraeg Gwaith Uwch - (5 o staff wedi'u cofrestru) - Cwrs 10 awr i weithwyr sy'n siarad Cymraeg ond sydd wedi colli momentwm neu hyder. Diben y cwrs hwn yw ailgyflwyno'r defnydd o'r Gymraeg.

- Datblygwyd rhaglen hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac fe'i cyflwynir gan MICNPT ti bob rheolwr cyfrifol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Llywiwyd y rhaglen gan adborth oddi wrth amrywiaeth ymarferion monitro cydymffurfio a gynhaliwyd gan Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn ystod 2018-2019.
- Er mwyn cefnogi a hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, sicrhawyd bod y feddalwedd gwirio sillafu Cymraeg, Cysill a Cysgair, ar gael i'r holl staff ac aelodau etholedig.
- Er nad oes rhestr o eiriau/gyfarchion syml wedi'i datblygu eto, mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd/digwyddiadau wedi cynyddu'n naturiol. Gydag Aelodau sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio cyfarchion Cymraeg etc. mewn cyfarfodydd, mae rhai aelodau di-Gymraeg wedi'u hannog ac wedi teimlo'n ddigon hyderus i ddefnyddio geiriau a chyfarchion syml hefyd.

### 3.3. Sefydliadau'r trydydd sector sy'n gysylltiedig â CBS CNPT

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Sicrhau bod yr holl grwpiau neu sefydliadau sy'n derbyn cyllid trydydd parti gan y cyngor yn bodloni meini prawf y grant sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Mae gofynion y Gymraeg wedi'u cynnwys yn ein polisi grantiau'r trydydd sector. Mae gofyn i bob sefydliad llwyddiannus ddangos pa effaith y bydd ei gynnig/brosiect yn ei chael ar:
    - gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg
    - trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal

**3.4 Cysylltu Datblygiad Economaidd ag iaith**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Sicrhau bod yr holl staff Datblygiad Economaidd rheng flaen yn darparu gwybodaeth briodol o ran hybu'r Gymraeg a sut y gall well busnes fel pwynt gwerthu unigryw.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Mae swyddog ‘Cymraeg Byd Busnes’ MICNPT wedi bod ar absenoldeb mamolaeth gan olygu y bu diffyg gweithgarwch o ran y cam gweithredu hwn. Rhagwelir y gwneir peth cynnydd o ran hyn yn y flwyddyn i ddod.

## Cynnydd yn erbyn y camau gweithredu â 2023 fel dyddiad targed

### Blaenoriaeth Strategol 1 Plant a Phobl Ifanc

### 1.1 Cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Darparu hyfforddiant gofal plant ac iaith Gymraeg priodol i ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd sy'n rhai cyfrwng Saesneg yn bennaf.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Datblygwyd rhaglen hyfforddiant ar gyfer y blynyddoedd cynnar i'w cefnogi mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Cafwyd presenoldeb da yn y cyrsiau a hwyluswyd gan PACEY (Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, elusen sy'n ymroddedig i gefnogi pawb sy'n gweithio yn y meysydd gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu gofal a dysgu cynnar o safon i blant a theuluoedd) a Hyfforddiant Dynamix ac fe'u croesawyd gan staff gofal plant. Roedd rhaglen hyfforddiant Uned y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (UBCGP)/ Dechrau'n Deg ar gyfer mis Medi i fis Rhagfyr 2019 yn cynnwys y cyrsiau Camau Nesaf a'r Gymraeg mewn Gofal Plant. Yn ogystal hybwyd cyrsiau'r Gymraeg mewn Gofal Plant, CAMAU (cynllun penodol dysgu Cymraeg penodol ar gyfer y gweithlu gofal plant ac addysg y Blynyddoedd Cynnar) i'r holl ddarparwyr.

- Cynhelir sesiynau Clwb Cwtsh  ym Maglan a Sgiwen. Rhaglen rhagflas llawn hwyl yw Clwb Cwtsh ar gyfer dysgwyr Cymraeg newydd sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg â phlant ifanc. Yn ystod y cwrs, darperir adloniant i'r plant, gan sicrhau nad yw gofal plant yn rhwystr i ymuno.
- Aeth yr UBCGP a MICNPT ar daith gyda Magi Ann (cymeriad stori Gymraeg) gan gyflwyno sesiwn stori a chanu mewn 19 o leoliadau, a chyrraedd dros 250 o blant.
- Mae'r UBCGP yn ystyried addasu fersiwn o'r Siarter Iaith ar gyfer lleoliadau gofal plant a'i rhoi ar waith.,
- Yn dilyn sesiwn beilot gyda PALS Daycare, mae Swyddog Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar wedi cynnig sesiynau stori/canu i'r holl leoliadau di-Gymraeg i annog staff i ddefnyddio Cymraeg yn fwy achlysurol yn ystod y sesiynau. Bydd MICNPT yn cynorthwyo â'r sesiynau hyn.
- Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yng Nghymru, ac ehangu'r cynnig i'r rhain, wedi sicrhau bod y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar Gymraeg wedi dod yn fwy atyniadol i rieni ar draws y fwrdeistref sirol:
    - Dau leoliad ychwanegol, Cylch Tir Morfa, Georgie Porgies yn Sandfields a Chylch Dechrau'n Deg ym Mrynhyfryd, gan ddod â'r cyfanswm i saith.
    - Mae Cylch Cwmnedd wedi ehangu ei oriau agor i gynnig darpariaeth 30 awr.
    - Mae Cylch Tir Morfa wedi symud i adeilad newydd ac mae bellach yn cynnig gofal plant ar ddechrau a diwedd dydd.
    - Mae Cylch Meithrin Waunceirch yn ehangu ei wasanaeth codi/gollwng er mwyn darparu gofal plant ar ddechrau a diwedd dydd.

Mae nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg wedi cynyddu o 104 (2017-2018) i 135 ar gyfer 2018-2019, ac mae nifer y lleoliadau gofal plant yn Dechrau'n Deg wedi cynyddu o 76 (2017-2018) i 93 ar gyfer 2018-2019.

- Mae Swyddog Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar yn:
  - gweithio gyda MICNPT i ymchwilio i leoliadau a gwirfoddolwyr ar gyfer sesiynau Ti a Fi, a'u sicrhau.
  - gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hybu'r Gymraeg.
- Mae'r swyddog datblygu'n dosbarthu adnoddau Cymraeg yn ystod ymweliadau cefnogi i grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg yn bennaf. Mae rhagor o adnoddau yn yr arfaeth i gynorthwyo wrth hybu'r Gymraeg.

### 1.2 Addysg - y sector cynradd

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Cynyddu'r lleoedd mewn ysgolion cynradd Cymraeg mewn lleoliadau allweddol ac ystyried agor ysgolion Cymraeg newydd yn y dyfodol agos.
- Cefnogi datblygiad a thwf y Siarter Iaith sy'n annog defnydd rhagweithiol o'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn y gymuned. Cefnogi'r Ail Siarter Iaith ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Ystyried effeithiau datblygiadau tai newydd ar dwf addysg Gymraeg neu'r effaith ar gymunedau lle siaredir Cymraeg.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Mae'r gwaith i godi rhagor o adeiladau yn YGG Castell-nedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd fel y gellir derbyn rhagor o ddisgyblion. Cytunwyd ar gynlluniau i gynyddu nifer yr adeiladau yn YGG Pontardawe ac YGG Tyle’r Ynn.
- Mae'r Siarter Iaith wedi'i datblygu'n genedlaethol ac mae'r holl ysgolion cynradd Cymraeg yn CNPT yn rhan o'r cynllun. Mae'r ysgol Gymraeg gyflawn newydd, Ysgol Ystalyfera Bro Dur, hefyd yn rhan ohono. Mae'r Siarter yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion uwchradd Saesneg ar hyn o bryd gan un o uwch-arweinwyr Ein Rhanbarth ar Waith (ERW).
- Mae MICNPT wedi llwyddo i gael arian Adran 106 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn Rhos er mwyn hybu, annog a gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn rhan annatod o'r datblygiad newydd yn Rhos fel y gall y datblygiad newydd ddod yn rhan o'r gymuned sy'n siarad Cymraeg.

  Bydd y cynllun yn ceisio darparu gweithgareddau a gwybodaeth am ystod eang o faterion ieithyddol er mwyn annog preswylwyr newydd i gymryd rhan yn y gymuned Gymraeg ei hiaith yn Rhos. Bydd yr amrywiaeth o weithgareddau hyn ar gyfer:

  - Preswylwyr y datblygiad tai newydd yn Rhos.
  - Preswylwyr pentref Rhos.
  - Preswylwyr pentrefi cyfagos a fydd efallai'n teithio i Ros (h.y. Bryncoch, Alltwen).

  O'r rhain, bydd y cynllun yn ceisio sicrhau amrywiaeth o weithgareddau er mwyn apelio i:

  - Blant cyn oed ysgol
  - Plant ysgolion cynradd
  - Plant ysgolion uwchradd/pobl ifanc

• Pobl Ifanc

• Oedolion

• Teuluoedd

Bydd y cynllun gweithredu hwn hefyd yn ceisio sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd i'r rheini y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, dysgwyr Cymraeg a'r rheini sydd heb ddechrau dysgu Cymraeg eto, ond y mae ganddynt ddiddordeb mewn gwneud hynny.

## 1.3 Addysg - sector uwchradd

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion uwchradd Cymraeg.
- Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg neu gynnwys diwylliant a threftadaeth Cymru i blant oed uwchradd.
- Annog disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy yn gymdeithasol.
- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc yn ysgolion Ystalyfera a Bro Dur i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Agorodd Ysgol Ystalyfera Bro Dur (campws y de) yn ne'r fwrdeistref sirol ym mis Medi 2018. Mae cyfraddau trosglwyddo rhwng ysgolion Cymraeg yn ne-ddwyrain y fwrdeistref sirol (YGG Castell-nedd, YGG Tyle’r Ynn

ac YGG Rhosafan) i Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn uchel iawn. Disgwylir y bydd effaith gadarnhaol barhaus ar y cyfraddau trosglwyddo dros gyfnod o 6 blynedd ac wedi hynny.

Mae cyfraddau trosglwyddo rhwng ysgolion Cymraeg yn ngogledd-orllewin y fwrdeistref sirol, ardal sy'n cael ei hystyried yn draddodiadol fel bro Gymreig yr awdurdod, i Ysgol Gymraeg Ystalyfera yn amrywiol ac yn aml yn isel o ardaloedd fel Pontardawe, Trebannws a Gwauncaegurwen. Mae'r sector cyfrwng Cymraeg yn parhau i weithio fel clwstwr i hybu cyfraddau trosglwyddo uwch.  Dyma un o'r materion y mae Fforwm WESP yn mynd i'r afael ag ef.

- Yn ystod 2018/2019:
    - Cynhaliwyd dros 30 o weithgareddau yn Gymraeg/diwylliant Cymru mewn clybiau ieuenctid yn y gymuned. Roedd y rhain yn cynnwys cwisiau, coginio, celf a chrefft, bingo, gemau bwrdd etc.
    - Cwblhaodd yr Arweinydd Tîm Cadw mewn Cysylltiad y cwrs Cyflwyniad i'r Gymraeg;
    - Aeth Clwb Ieuenctid Tai-bach â'u pobl ifanc i wylio Cymru'n chwarae rygbi yn Stadiwm y Mileniwm fel rhan o'u gweithgareddau diwylliant Cymru;
    - Cyflwynodd y Gwasanaeth Ieuenctid dau gwrs preswyl yn Llangrannog, un o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg a oedd yn canolbwyntio ar ddiwylliant Cymru a'r ail yn gwrs i Arweinwyr Iau gydag agweddau dwyieithog iddo.
    - Mae'r gwasanaeth Ieuenctid wedi datblygu Cwrs Agored Cymru ar Ddiwylliant Cymru sydd bellach wedi'i gyfieithu ac fe'i cyflwynir ym mis Ionawr 2020.
    - Trefnodd y tîm Cam Nesaf ymweliad â Sain Ffagan i edrych ar ddiwylliant Cymru.
    - Cafodd Clwb Ieuenctid Bryn noson llawn hwyl wrth gymryd rhan mewn Eisteddfod clwb ieuenctid a oedd yn cynnwys cwis am Gymru, cwis am ddiwrnod Sant Padrig (gan ddysgu am hanes nawddsant Iwerddon a aned yng Nghymru), dyfalu'r sgôr yng ngêm Cymru yn erbyn Iwerddon ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad a'r ynganiad gorau o'r enw lle enwocaf yng Nghymru ‘Llanfair PG’;

    - Dathlodd Clwb Ieuenctid y Creunant ddiwylliant Cymru drwy wneud cardiau i ddathlu Dydd Santes Dwynwen, a chymryd rhan mewn cwis am Gymru a chystadleuaeth bwyta cennin;
    - Dathlodd pobl ifanc Cwmllynfell Ddydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi gyda gweithgareddau, gan gynnwys blasu rhai bwydydd Cymreig traddodiadol.
    - Cymerodd pobl ifanc Clwb Ieuenctid Glyn-nedd ran mewn gweithgareddau'n ymwneud â Dydd Santes Dwynwen. Mwynhaont ddysgu am eu treftadaeth Gymreig a'i thrafod. Gan ddod â'u syniadau a'u barn hwy eu hunain i'r gweithgaredd, daeth i ben gyda chystadleuaeth chwilair ddifyr a anogodd y cyfranogwyr i ddatblygu'u sgiliau personol;

- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi:
    - cyflogi Gweithiwr Ieuenctid Etifeddiaeth sy'n siarad Cymraeg, mewn partneriaeth ag Ysgol Gymraeg Ystalyfera, i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o golli diddordeb yn eu haddysg.
    - cyflwyno diwrnodau gweithgarwch yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera, sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera a sesiynau Perthnasoedd a Rhywioldeb yn Gymraeg.
    - cyflogi dau weithiwr gweithgarwch sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio yng Nghlwb Ieuenctid Cwmllynfell. Dyma'r tro cyntaf y mae'r gwasanaeth wedi recriwtio gweithiwr sy'n siarad Cymraeg yn benodol ar gyfer clybiau ieuenctid.
- Gwahoddwyd Ysgol Gymraeg Ystalyfera i gymryd rhan yn Etholiadau'r Cyngor Ieuenctid a gynhaliwyd ym mis Medi a chysylltir â'r ysgol eto i fod yn rhan o ail rownd yr etholiadau.

**Blaenoriaeth Strategol 2 Teuluoedd**

**2.1. Trosglwyddo iaith yn y cartref**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Darparu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Sefydlwyd dwy ganolfan gofal plant; yng Nghylch Tir Morfa, Georgie Porgies yn Sandfields a Chylch Dechrau'n Deg ym Mrynhyfryd.

**Blaenoriaeth Strategol 3 Cymunedau**

**3.1 Y Gymraeg yn y gymuned**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Defnyddio technoleg gyfathrebu i hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Mae gennym dudalen wedi'i neilltuo i swyddi ar y fewnrwyd (i staff mewnol) a'r rhyngrwyd (i'r cyhoedd) lle'r hysbysebir yr holl swyddi gwag, gan gynnwys prentisiaethau.

  Mae'r rheolwr recriwtio'n nodi a yw'r Gymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol' ar gyfer y swydd honno a chofnodir hyn pan gaiff y swydd ei hysbysebu. Os yw'r Gymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol', mae'r rheolwr recriwtio'n trefnu i'r hysbyseb, y disgrifiad swydd a'r manyleb swydd gael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac mae AD yn rhoi'r hysbyseb ar y tudalennau swyddi.

**3.2 Cymraeg yn y Gweithle**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Bydd y cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg.
- Creu amgylchedd sy'n annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.
- Hybu cynlluniau sy'n dangos mewn ffordd weledol y croesewir y Gymraeg yn y gweithle.
- Dosbarthu deunydd hyrwyddol yn Gymraeg i staff.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn parhau i ddarparu diweddariadau yng nghyfarfod Grŵp Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb y cyngor.

  Cynhaliwyd nifer o ymarferion profi cydymffurfiaeth, yn ogystal ag ymarferion siopwr dirgel mewn partneriaeth â MICNPT. Mae adborth oddi wrth y rhain wedi cyfeirio datblygiad rhaglen hyfforddiant, a ddatblygwyd gan MICNPT. Bydd y sesiynau hyn, i'w cyflwyno rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 yn mynd i'r afael ag ymwybyddiaeth o iaith ac yn atgyfnerthu gofynion cydymffurfio. Yn ogystal, mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gwynion a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â honiadau o ddiffyg cydymffurfio a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol, lle bo'n briodol.

- Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn sicrhau y caiff erthyglau ar gyfer adran 'Cornel Gymraeg' y cylchlythyr ar-lein mewnol 'In the Loop', eu cyhoeddi ym mhob rhifyn. Mae adnoddau cynorthwyo a chefnogi ar gael ar dudalennau Cymraeg adran hwb perfformio'r fewnrwyd, sy'n cynnwys manylion ynghylch sut i gael gafael ar gortynnau gwddf, testun ar gyfer negeseuon allan o'r swyddfa, llofnodion e-bost, pryd a sut i wneud cais am gyfieithiad etc.

- Er bod deunyddiau hyrwyddol ar gael drwy Grŵp Swyddogion y Gymraeg a'r tudalennau cymorth a chefnogaeth yr hwb perfformiad, byddant hefyd ar gael ym mhob sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith/cydymffurfio a gynhelir o fis Ionawr tan fis Mawrth 2020.

**3.5 Cryfhau cysylltiadau â pholisïau a strategaethau allweddol y cyngor**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i gryfhau elfen y Gymraeg mewn perthynas â holl ardaloedd y fwrdeistref sirol, nid yn unig yr ardaloedd ieithyddol sensitif.

**Yr hyn a wnaethon ni:**

- Codwyd y mater hwn gyda swyddogion cynllunio a fydd, fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, yn sicrhau bod unrhyw argymhellion i gryfhau'r polisi yn briodol a bod modd eu cyflawni.